Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |



| | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date:** | **10.01.2025** |
| **Pwnc / Subject:** | **Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflawni dros bobl ifanc** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**
Rydym yn croesawu newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i ddeddfwriaeth gwaith ieuenctid, sy'n adlewyrchu ymrwymiad i gryfhau rôl gwaith ieuenctid fel gwasanaeth cymorth hanfodol ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru. Rydym yn cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i sefydlu fframwaith statudol sy'n diffinio gwaith ieuenctid yn glir, ac yn darparu ymagwedd strwythuredig ac atebol at ei gyflenwi. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd integreiddio gwaith ieuenctid o fewn fframwaith ehangach sy'n cyd-fynd â'r nodau llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gan y pwyslais ar gyfranogiad ieuenctid, cynllunio strategol, a gweithio mewn partneriaeth o fewn y fframwaith arfaethedig y potensial i wella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, rydym wedi nodi meysydd lle gallai mwy o ystyriaeth neu eglurhad helpu i wella gweithredu'r polisïau hyn, gan sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn gynaliadwy, fel ei gilydd.

Credwn gydag ychydig o fân addasiadau, yn enwedig o amgylch alinio cyllid, atebolrwydd a strwythurau partneriaeth, y gallai'r fframwaith statudol gefnogi anghenion unigryw pobl ifanc ledled Cymru yn well, a sicrhau mynediad tecach at wasanaethau gwaith ieuenctid o ansawdd uchel.

Gweler isod ein hargymhellion allweddol i gryfhau'r cynigion ymhellach:

- Sicrhau alinio cyllid â'r cynllun strategol: Gallai'r model cyllid presennol ar gyfer gwaith ieuenctid darfu ar y cynllun strategol pum mlynedd. Byddai'n fuddiol alinio seibiannau cyllid â'r cyfnod cynllunio strategol neu ddarparu estyniadau cyllid amodol i gefnogi nodau tymor hir a galluogi darparwyr i wneud cynlluniau tymor hirach.
- Egluro mecanweithiau atebolrwydd: I gryfhau atebolrwydd, rydym yn awgrymu canllawiau cliriach ar fetrigau perfformio a thryloywder o ran adrodd, ynghyd â chymorth ar gyfer awdurdodau lleol sy'n wynebu heriau wrth gyflawni eu hamcanion.
- Gwarchod hyblygrwydd tra'n gosod safonau gofynnol: Mae hyblygrwydd mewn strwythurau partneriaeth a dulliau cyfranogiad ieuenctid yn hanfodol, ond byddai sefydlu safonau gofynnol yn helpu sicrhau cysondeb a mynediad teg at wasanaethau gwaith ieuenctid ledled Cymru.
- Ehangu cyfranogiad ieuenctid wrth wneud penderfyniadau: Tra'n caniatáu ar gyfer addasu lleol, dylai'r fframwaith sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd rheolaidd a strwythuredig i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid yn eu cymunedau.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n teimlo bod y diffiniad arfaethedig o waith ieuenctid yn glir ac yn helpu gwahaniaethu gwaith ieuenctid oddi wrth wasanaethau eraill sy'n cefnogi pobl ifanc?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn siŵr | ✓ |

**Sylwadau ategol**

Mae'r diffiniad arfaethedig o waith ieuenctid yn glir ac yn effeithiol, ar y cyfan, o ran sefydlu gwaith ieuenctid fel gwasanaeth proffesiynol ar wahân o fewn ymdrechion gwaith ieuenctid ehangach. Trwy ganolbwyntio ar ymgysylltiad gwirfoddol pobl ifanc a'r ymagwedd addysgol unigryw sy'n gysylltiedig â gwaith ieuenctid, mae'r diffiniad yn ei osod ar wahân i wasanaethau cefnogol eraill a allai flaenoriaethu dulliau gwahanol, fel ymyriadau mandadol neu addysg ffurfiol. Yn ychwanegol, mae nodi cymwysterau gwaith ieuenctid (ar gyfer gweithwyr ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid) yn ei wahaniaethu ymhellach fel maes proffesiynol, yn helpu egluro rolau a disgwyliadau o fewn gwasanaethau cymorth ieuenctid, ac yn cyd-fynd â chofrestriad CGA.

Fodd bynnag, er bod y diffiniad yn darparu sylfaen, gallai disgrifiad clir a chryno sy'n gwahaniaethu gwaith ieuenctid oddi wrth feysydd tebyg, fel gwaith cymdeithasol neu addysg gymdeithasol, gryfhau dealltwriaeth gyhoeddus ac alinio polisi. Er enghraifft, gallai rhoi manylion am y mathau penodol o ymgysylltiad a chymorth addysgol a gynigir yn unigryw trwy waith ieuenctid helpu mireinio'i rôl mewn gwasanaethu pobl ifanc yn effeithiol.

**Cwestiwn 2** – A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol wrth ddefnyddio'r dull hwn?

| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Gallai diffinio gwaith ieuenctid o fewn fframwaith statudol cul gyfyngu ar hyblygrwydd ac ymatebolrwydd. Mae gwaith ieuenctid yn faes sy'n elwa ar addasrwydd i ddiwallu anghenion newidiol pobl ifanc. Trwy ffurfioli ei strwythur a'i ofynion, gallai fod risg y bydd awdurdodau lleol yn mabwysiadu un dull sy'n gweddu i bawb, a fydd o bosibl yn atal arloesedd mewn meysydd lle mae anghenion penodol unigryw neu gymunedol yn hanfodol.

Er ein bod yn cytuno â'r pwyslais ar gymwysterau, mae angen i ni fod yn wyliadwrus nad yw hyn yn atal cyfleoedd ar gyfer gwaith ieuenctid anffurfiol ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr cymunedol, sy'n aml yn cyflwyno safbwyntiau gwerthfawr. Gallai sicrhau bod hyblygrwydd ar gyfer ymglymiad gwirfoddolwyr a chymorth cymunedol ehangach yn aros o fewn y fframwaith helpu mynd i'r afael â hyn.

**Cwestiwn 3** – Ydych chi'n teimlo y bydd y gofyniad ar gyfer cynllun strategol gwaith ieuenctid yn helpu cryfhau cynllunio a chyflenwi gwaith ieuenctid?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Gallai gofyn am gynllun strategol gwaith ieuenctid wella cysondeb, ansawdd ac alinio strategol gwasanaethau gwaith ieuenctid ledled Cymru. Bydd proses gynllunio strwythuredig, gydag amcanion a nodau clir, yn cefnogi awdurdodau lleol i symud y tu hwnt i ymagweddau ymatebol at fynd i'r afael ag anghenion hirdymor pobl ifanc. Yn ychwanegol, mae alinio'r cynllun strategol â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gam buddiol, gan ei fod yn cysylltu deilliannau gwaith ieuenctid â nodau cymdeithasol ehangach ac yn annog datblygiad cynaliadwy a chyfannol.

| |
|---|
| Ar gyfer yr effeithiolrwydd gorau posibl, dylai'r cynllun strategol gynnwys mecanweithiau ar gyfer gwerthuso cynnydd, asesu anghenion sy'n dod i'r amlwg, ac ymgorffori adborth gan bobl ifanc, gan sicrhau ei fod yn aros yn berthnasol ac yn effeithiol dros gyfnod. Efallai bydd angen cymorth ar arweinwyr gwaith ieuenctid dynodedig ar y cychwyn wrth ffurfio'r cynlluniau hyn, a gallai arweiniad clir ar nodweddion cynllunio effeithiol fod yn fuddiol.<br><br>Gallai cylch cyllid tair blynedd presennol y grant strategaeth cymorth ieuenctid greu heriau i barhad ac amcanion hirdymor y cynllun strategol pum mlynedd. Gan fod y cynllun strategol yn ymestyn dros bum mlynedd, gallai unrhyw ansicrwydd mewn cyllid y tu hwnt i'r tair blynedd gychwynnol darfu ar brosiectau parhaus, cyfyngu ar gwmpas mentrau yn y dyfodol, a chreu anawsterau wrth gynllunio adnoddau. Gallai hyn arwain at ymagwedd ofalus neu adeiladol at gynllunio, a bydd awdurdodau lleol o bosibl yn betrusgar i ymrwymo'n llawn i amcanion tymor hir os nad yw cyllid yn y dyfodol wedi'i sicrhau.<br><br>Efallai mai un ffordd o fynd i'r afael â hyn fyddai ymgorffori cynllunio addasol o fewn y cynllun strategol, gan ganiatáu ar gyfer addasiadau hyblyg ym mlynyddoedd pedwar a phump yn seiliedig ar argaeledd cyllid. Yn ychwanegol, gallai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau fel mecanwaith cyllid dros dro neu estyniadau amodol sy'n cyd-fynd â chylch y cynllun strategol, gan sicrhau alinio mwy cyson rhwng cynllunio a chymorth ariannol. |

**Cwestiwn 4** – Ydych chi'n teimlo y bydd y cynllun strategol gwaith ieuenctid yn darparu strwythur atebolrwydd effeithiol ar gyfer gwaith ieuenctid?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau ategol**<br><br>Gallai cynllun strategol gwaith ieuenctid sy'n cael ei fonitro ac yr adroddir arno'n rheolaidd ddarparu strwythur atebolrwydd cryf. Mae gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno'u cynlluniau ar gyfer eu cymeradwyo a'u hadolygu yn annog lefel uwch o dryloywder a chysondeb. Ymhellach, bydd adroddiadau monitro blynyddol ar gynnydd yn galluogi rhanddeiliaid i asesu p'un a yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cyd-fynd ag amcanion y cynllun ac anghenion cymunedol.<br><br>Fodd bynnag, er mwyn i'r strwythur hwn fod yn wirioneddol effeithiol, dylid amlinellu amcanion clir a mesuradwy, gydag arweiniad ar beth mae llwyddiant yn ei olygu. Gallai ymgynghori rheolaidd â rhanddeiliaid ieuenctid a chymunedol trwy gydol y cyfnod adrodd hefyd wella atebolrwydd trwy feithrin diwylliant o adborth ac ymgysylltu parhaus.<br><br>Mae gan Estyn rôl hefyd mewn arolygu gwasanaethau ieuenctid, a gallai ystyried y cynlluniau strategol pum mlynedd ac unrhyw adroddiad blynyddol fel rhan o'r fframwaith arolygu, neu fel cais annibynnol am gyngor trwy Lywodraeth Cymru. O ran awdurdodau lleol, mae gennym system bresennol o arolygwyr cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol y gellid ei defnyddio i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth barhaus i gefnogi cyngor am gyflawni'r cynlluniau strategol. | | | | | |

**Cwestiwn 5** – Mae'r cynigion wedi'u bwriadu i alluogi awdurdodau lleol i gynllunio strwythurau partneriaeth yn unol ag angen lleol. Ydych chi'n ystyried bod angen bod yn fwy cyfarwyddol?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn siŵr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

| **Sylwadau ategol** |
|---|
| Mae caniatáu hyblygrwydd wrth gynllunio strwythurau partneriaeth ar sail anghenion lleol yn werthfawr, gan ei fod yn galluogi awdurdodau i deilwra partneriaethau i gyd-destunau demograffig, cymdeithasol ac economaidd penodol. Fodd bynnag, gallai fod manteision wrth osod safonau gofynnol neu ganllawiau i sicrhau ansawdd a thegwch sylfaenol ar draws ardaloedd. Er enghraifft, gallai elfennau cyfarwyddol gynnwys gofynion ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol neu ganllawiau ar brosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd.<br><br>Gallai cydbwyso ymreolaeth leol â safonau cyson helpu atal gwahaniaethau yn ansawdd gwasanaethau neu fynediad at wasanaethau rhwng ardaloedd, gan gefnogi darpariaeth decach o ran gwasanaethau gwaith ieuenctid ledled Cymru.<br><br>Mae'n bwysig cael diben clir a deilliannau dymunol mewn cof ar gyfer unrhyw drefniadau cydweithredol, ac nad ydynt yn dod yn ymarfer rhy fiwrocrataidd nac yn defnyddio gormod o adnoddau sy'n tynnu oddi ar gyflenwi gwaith ieuenctid yn uniongyrchol. Efallai bod gwersi y gellir eu dysgu o drefniadau presennol partneriaethau dysgu oedolion a gallai'r gwaith presennol ar drefniadau partneriaeth effeithiol a ddatblygwyd gan Y Sefydliad Dysgu a Gwaith fod yn fuddiol – Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned: Offeryn ar gyfer Ymarfer a Darpariaeth Effeithiol – Y Sefydliad Dysgu a Gwaith. |

**Cwestiwn 6** – A yw'r trefniadau atebolrwydd a gynigir yn y fframwaith statudol yn ddigon cadarn a chlir?

| Ydyn | ☐ | Nac ydyn | ✓ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

| **Sylwadau ategol** |
|---|
| Mae'r trefniadau atebolrwydd a amlinellir yn y fframwaith, yn enwedig cyflwyno a chymeradwyo cynlluniau strategol, gofynion adrodd blynyddol, a goruchwyliaeth gan Weinidogion Cymru, yn darparu strwythur cynhwysfawr. Fodd bynnag, byddai eglurder ar ganlyniadau methu bodloni'r gofynion hyn yn cryfhau'r fframwaith. Gallai hyn gynnwys camau dilynol neu fecanweithiau cymorth posibl os yw awdurdod yn cael trafferth cyflawni ei amcanion. Hefyd, mae angen i'r trefniadau atebolrwydd ystyried newid mewn amgylchiadau a allai olygu bod y nodau gwreiddiol fel y'u cyflwynir yn y cynlluniau yn llai perthnasol. Mae angen cymryd gofal nad yw'r ffocws yn dod yn atebolrwydd i Weinidogion lle mae llawer yn y fantol Cymru sy'n gwyro ymddygiadau, a gall dynnu oddi ar welliant parhaus gwirioneddol fyfyriol i ddiwallu anghenion esblygol pobl ifanc ar lefel gwasanaeth gwaith ieuenctid.<br><br>Yn ychwanegol, bydd sicrhau mynediad cyhoeddus tryloyw at adroddiadau ac asesiadau perfformiad yn meithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltiad y gymuned â'r gwasanaethau gwaith ieuenctid a gyflenwir, gan atgyfnerthu atebolrwydd ymhellach. |

**Cwestiwn 7** – A yw'r hawl gwaith ieuenctid arfaethedig yn crynhoi'n glir sut rydym gyda'n gilydd yn dymuno gweld gwaith ieuenctid yn cael ei gynllunio a'i gyflenwi?

| Ydy | ✓ | Nac ydy | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

| Sylwadau ategol |
|---|
| Mae'r hawl gwaith ieuenctid arfaethedig yn crynhoi'n llwyddiannus weledigaeth am waith ieuenctid cynhwysol, hygyrch, ac ymatebol ledled Cymru. Mae'n pwysleisio mynediad cyffredinol ochr yn ochr â chymorth targedig, gan hyrwyddo ymagwedd gyfannol at fynd i'r afael ag anghenion amrywiol pobl ifanc. Mae'r ffocws ar waith ieuenctid ar y cyd, dwyieithog a chymunedol yn cyd-fynd yn dda â'r amcanion cymdeithasol ehangach yng Nghymru, ac yn annog darpariaeth deg.<br><br>I gryfhau'r hawl hon ymhellach, gallai ffocws ar ddiffinio a rhoi deilliannau yn gysylltiedig â llesiant a datblygiad pobl ifanc ar waith, fod yn werthfawr. Byddai hyn yn darparu sylfaen gliriach ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau a gynigir o dan yr hawl. |

**Cwestiwn 8 –** Mae'r fframwaith statudol yn gofyn i awdurdod lleol sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cymryd rhan mewn cynllunio a chyflenwi gwaith ieuenctid. Byddai'r union ddull i gyflawni hyn yn cael ei bennu gan angen a strwythurau lleol. Ydych chi'n ystyried bod angen bod yn fwy cyfarwyddol?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau ategol**<br><br>Er bod yr hyblygrwydd i deilwra strwythurau cyfranogiad ieuenctid i gyd-destunau lleol yn bwysig, gallai dull mwy cyfarwyddol helpu sicrhau bod yr holl bobl ifanc, ni waeth ym mha ardal, yn cael cyfleoedd ystyrlon i ffurfio gwasanaethau gwaith ieuenctid. Gallai sefydlu safonau neu egwyddorion gofynnol, fel gofynion ar gyfer ymgynghoriadau rheolaidd â phobl ifanc, mecanweithiau ar gyfer ymgorffori adborth, a sicrhau hygyrchedd ar gyfer lleisiau amrywiol, fod yn fuddiol.<br><br>Gallai'r safonau hyn sicrhau cysondeb tra'n caniatáu i awdurdodau lleol addasu eu dull ar sail anghenion cymunedol penodol o hyd, gan feithrin amgylchedd lle mae gan bobl ifanc rôl go iawn mewn ffurfio'r gwasanaethau sy'n effeithio arnyn nhw. | | | | | |

**Cwestiwn 9 –** Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ni ddiddordeb yn benodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r cynigion yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i'r Gymraeg trwy gydnabod ei phwysigrwydd o fewn gwasanaethau gwaith ieuenctid, a gallai'r pwyslais hwn gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau amrywiol. Trwy nodi cyflenwi dwyieithog o fewn yr hawl gwaith ieuenctid, mae'r fframwaith yn hyrwyddo triniaeth gyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg, gan gyd-fynd yn dda â nodau Llywodraeth Cymru i gyflawni Cymraeg 2050, i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn annog awdurdodau lleol ymhellach i ymgorffori rhaglennu ac adnoddau dwyieithog, gan drefnu bod opsiynau Cymraeg ar gael mewn gwaith ieuenctid ledled Cymru. |

Fodd bynnag, bydd llwyddiant y dull dwyieithog hwn yn dibynnu ar weithredu ymarferol ym mhob awdurdod lleol. Efallai ei bod yn werth ystyried p'un a oes angen i Fil presennol y Gymraeg ac Addysg gofnodi unrhyw beth i gefnogi cyflenwi gwaith ieuenctid yn ddwyieithog.

**Cwestiwn 10** – Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid y cynigion er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

Gellid addasu'r cynigion i ymestyn eu heffaith gadarnhaol ar y Gymraeg trwy gyflwyno mesurau penodol sy'n cefnogi ymgysylltu â'r Gymraeg ac yn sicrhau mynediad teg. Mae addasiadau a awgrymwyd yn cynnwys:

- Darpariaethau Cymraeg mewn Cynlluniau Strategol: Mae pob awdurdod lleol yn llunio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ar hyn o bryd. Byddai'n rhaid i'r rhain adlewyrchu ac ymgorffori'r gwaith y mae gwasanaethau ieuenctid yn ei amlinellu yn eu cynlluniau strategol pum mlynedd.
- Cymorth ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid sy'n Siarad Cymraeg: Gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cymhellion neu gyllid dynodedig ar gyfer hyfforddiant a chyflogi gweithwyr ieuenctid sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae gweithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg yn brin.

Byddai'r addasiadau hyn yn atgyfnerthu statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg mewn gwaith ieuenctid, gan fynd i'r afael â heriau posibl tra'n meithrin amgylchedd mwy dwyieithog i gefnogi amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg 2050.

Credwn y dylid sicrhau bod gwaith ieuenctid sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol naill ai eu hunain neu drwy gytundebau â chyrff eraill yn rhan o unrhyw Gynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg. Mae'r sector gwaith ieuenctid yn cyflawni rôl bwysig yn addysgol ac yn gymdeithasol. Dylid ystyried bod gallu'r sector i ymestyn defnydd o'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i leoliadau addysg ac mewn cyd-destunau amrywiol yn ganolog i unrhyw strategaeth i greu siaradwyr mwy gweithredol a chynyddu defnydd ystyrlon o'r Gymraeg mewn gwahanol feysydd.

**Cwestiwn 11** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Gallai sawl ystyriaeth ychwanegol wella effeithiolrwydd a thegwch y fframwaith arfaethedig:

Sefydlogrwydd Cyllid Tymor Hir: Fel y soniwyd yn gynharach, mae'r camalinio rhwng y cylch cyllid tair blynedd a'r cynllun strategol pum mlynedd yn creu heriau posibl ar gyfer parhad. Gallai mynd i'r afael â'r bwlch hwn, naill ai drwy alinio cyllid â'r cylch cynllunio neu ddarparu cyllid dros dro, gryfhau sefydlogrwydd a gweithredu gwasanaethau gwaith ieuenctid.

Darpariaeth ar gyfer dulliau gwaith ieuenctid annhraddodiadol: Mae'r fframwaith yn pwysleisio gweithwyr ieuenctid cymwys, sy'n bwysig ar gyfer sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, gallai caniatáu hyblygrwydd ar gyfer dulliau cymunedol anffurfiol ac ymglymiad gwirfoddolwyr wella allymestyn ac ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl ifanc.

Eglurder ar fetrigau perfformiad: I gefnogi atebolrwydd, byddai arweiniad ar fetrigau perfformiad, dangosyddion llwyddiant, a gwerthusiadau cyfnodol, yn helpu sicrhau safonau cyson tra'n caniatáu ar gyfer hyblygrwydd mewn gweithredu lleol.

Cynhwysiant ac atebolrwydd sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol: Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar atebolrwydd awdurdodau lleol a heb bwyslais ar sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol. Mae'r sector gwirfoddol yn cyflenwi gwasanaethau gwaith ieuenctid hanfodol ledled Cymru, ac yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn derbyn cyllid cyhoeddus.

Arweinydd ieuenctid dynodedig: Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn amlygu bod angen i arweinydd ieuenctid dynodedig a benodwyd gael hynafedd a phrofiad addas. Mae hyn yn agored i'w ddehongli a gallai fod yn fwy cyfarwyddol i warchod arweinwyr sy'n dod trwy'r sector gwaith ieuenctid. Byddai bod yn fwy cyfarwyddol yn cefnogi darpar arweinwyr gwaith ieuenctid wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer dilyniant gyrfa. Byddai hyn yn cefnogi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru - "mae'r rhai sy'n cyflwyno gwaith ieuenctid yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa".

Camalinio â chynlluniau strategol corfforaethol: Gallai'r amserlen arfaethedig yn yr arweiniad olygu bod cynlluniau strategol gwasanaethau ieuenctid yn ymestyn dros ddau gynllun strategol corfforaethol. Gallai hyn gael effaith ar barhad y cynllun strategol gwasanaethau ieuenctid os yw blaenoriaethau lleol wedi newid.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐